# Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009

**2009 mccc 4**

*Cyffredinol*

**20 Dehongli**

(1) Yn y Mesur hwn —

[F1]...

**[**[F2]"mae "Aelod o'r Senedd" ("Member of the Senedd") yn cynnwys—

(a) at ddibenion adran 1(3)(a) a (b) yn unig, y Cwnsler Cyffredinol hyd yn oed os nad yw'r swyddog hwnnw'n Aelod o'r Senedd, a

(b) ac eithrio at ddibenion adran 1(3)(a) a (b), cyn Aelod o'r Senedd,**]**

ystyr "y Clerc" ("*the Clerk*") yw Clerc y **[**[F3]Senedd**]**,

ystyr "y Comisiwn" ("*the Commission*") yw Comisiwn **[**[F4]y Senedd**]**,

ystyr "Cwnsler Cyffredinol" ("*Counsel General*") yw Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth [F5]... Cymru,

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32),

ystyr "y Pwyllgor Safonau Ymddygiad" ("*the Committee on Standards of Conduct*") yw unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor i'r **[**[F3]Senedd**]** y dirprwywyd iddo, gan y Rheolau Sefydlog neu odanynt, swyddogaethau sy'n ymwneud â chwynion bod **[**[F6]Aelodau o'r Senedd**]** wedi methu â chydymffurfio â gofynion darpariaeth berthnasol, ac

ystyr "Rheolau Sefydlog" ("*Standing Orders*") yw Rheolau Sefydlog y **[**[F3]Senedd**]**.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Mesur hwn at "y **[**[F3]Senedd**]**" yn gyfeiriad —

(a) at **[**[F7]Senedd Cymru**]**, neu

(b) heblaw yn adrannau 1 ,4, 6(3)(b), (c) a (d) a'r Atodlen, at y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

### Diwygiadau Testunol

**F1** Geiriau yn a. 20(1) wedi eu hepgor (6.5.2020) yn rhinwedd Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 3(4)(a)(i)**

**F2** Geiriau yn a. 20(1) wedi eu mewnosod (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 3(4)(a)(i)**

**F3** Geiriau yn y Mesur wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), **Atod. 1 para. 3(11)** (ynghyd ag Atod. 1 para. 3(6)(7))

**F4** Gair yn a. 20(1) wedi ei amnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 3(4)(a)(ii)**

**F5** Gair yn a. 20(1) wedi ei hepgor (6.5.2020) yn rhinwedd Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 3(4)(a)(iii)**

**F6** Geiriau yn y Mesur wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), **Atod. 1 para. 3(9)** (ynghyd ag Atod. 1 para. 3(6)(7))

**F7** Geiriau yn a. 20(2)(a) wedi eu hamnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 3(4)(b)**

### Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 20 mewn grym ar 10.12.2009, gweler **a. 21(2)(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, Adran 20.